

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
13 Mawrth, 2014, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 374

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

1. Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Esboniodd y bwriad i gynnal cyfarfod busnes o'r Awdurdod cyn ail-ymgynnull i barhau i ystyried y cynlluniau cyd-leoli ac adleoli.

2. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

3. Cofnodion cyfarfod 373 (a gynhaliwyd ar 13.02.14) a materion yn codi

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 373 ac esboniwyd y byddai cyfle pellach i ystyried materion yn codi o'r cofnodion yng nghyfarfod busnes yr Awdurdod ym mis Ebrill.

Cyfeiriwyd at y bwriad i gyflwyno cyllideb drafft ar gyfer 2014-15 a phenderfynwyd y dylid cyflwyno'r gyllideb drafft i'r Awdurdod ar gyfer ystyriaeth yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion.

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Ail Adroddiad Comisiwn Silk

Esboniwyd bod S4C yn bwriadu paratoi tystiolaeth ar gyfer Pwyllgor Cymunedau a Chydraddoldeb y Cynulliad yn ymwneud ag argymhellion Silk ac anghenion ariannol S4C. Bydd y dystiolaeth yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Awdurdod.

Aelodaeth yr Awdurdod

[**Crynodeb:** Mae tymor GJ fel aelod o'r Awdurdod yn dod i ben a diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyfraniad pwysig i waith yr Awdurdod. Mae tymor JD nawr yn dod i ben ar 30/03/2018.]

Mae hysbysebion ar gyfer aelodau newydd wedi ymddangos yn y papur, a bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal ym mis Ebrill.

5. Adroddiad Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Gwaith 'ariannu digonol'

Esboniodd bod y gwaith o gynllunio anghenion ariannu digonol S4C yn parhau, a bod y grŵp prosiect wedi cwblhau nifer o ffrydiau gwaith gan gynnwys natur y gwasanaeth, disgwyliadau'r gynulleidfa a thechnoleg y dyfodol. Mae'r gwaith o fodelu scenarios ariannol, gan gynnwys effaith ar berfformiad y gwasanaeth, yn parhau a disgwylir y bydd drafft o'r adroddiad ar gael i'w ddsbarthu erbyn diwedd Ebrill.

Hyfforddiant

Nodwyd bod swyddogion wedi derbyn adroddiad a gomisiynwyd gan S4C am anghenion hyfforddiant y sector ac ardrawiad cyfraniad ariannol S4C i hyfforddiant. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod unwaith i swyddogion ystyried y camau nesaf.

Pobol y Cwm

[**Crynodeb:** Roedd S4C a'r BBC wedi cyhoeddi y bydd omnibws Pobol y Cwm yn dod i ben.]

Y Gwyll

[**Crynodeb:** Mae BBC Cymru ac S4C yn bwriadu cyd-gomisiynu ail gyfres a thrafodaethau cyllideb yn parhau.]

6. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y trafodaethau yn ymwneud â hawliau rygbi. Mae'r trafodaethau yn parhau

ar hyn o bryd mewn cydweithrediad â BBC Cymru.]

7. Adroddiad Ymchwil Misol

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol.

8. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig.

9. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth.

10. Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar yr 20fed o Chwefror

[**Crynodeb:** Cyflwynodd AE ei adroddiad yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 20 Chwefror ac esboniodd mai prif waith y Pwyllgor oedd ystyried Adolygiad yr Awdurdod o berfformiad Rhaglenni'r BBC o dan y Bartneriaeth Strategol yn ystod 2013. Cyflwynwyd yr asesiad drafft ac yn dilyn trafodaeth ac awgrymiadau gan yr Aelodau cymeradwywyd yr asesiad.]

11. Unrhyw fater arall

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

12. Trafodaeth Adleoli a Chydleoli

Daethpwyd â chyfarfod busnes yr Awdurdod i ben er mwyn trafod yr uchod.

(Cofnodwyd y drafodaeth am adleoli a chydleoli mewn dogfen ar wahân.)

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 10fed Ebrill 2014.